Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | Dyddiad: | Dydd Llun, 9 Hydref 2023 |
| | | Deialu Union: | 01824 712568 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD MAWRTH, 17 HYDREF 2023** yn **TRWY CYFRWNG FIDEO**.

Yn gywir

Gary Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**MYFYRIO TAWEL**

**1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022.

**5 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CWRICWLWM I GYMRU** (Tudalennau 15 - 16)

Derbyn diweddariad ar lafar am gyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru, Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a’r Canllawiau Ategol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2022-23** (Tudalennau 17 - 36)

Ystyried a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG 2022-23.

**7 CYFLEOEDD AC ADNODDAU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG AC ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 37 - 38)

Derbyn cyflwyniad ar yr ystod o ddeunydd sydd ar gael i gefnogi athrawon Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Grefyddol.

**8 CCYSAGC** (Tudalennau 39 - 50)

Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein 19 Mehefin 2023.

**9 DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

Gwanwyn - 22/2/24
Haf - 26/6/24
Hydref - 15/10/24

**AELODAETH**

**Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

| | |
|---|---|
| Ellie Chard | Merfyn Parry |
| Cheryl Williams | Huw Williams |
| Ann Davies | Delyth Jones |
| Gill German | Emrys Wynne |

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Suzy Sturley | Y Parch. Martin Evans-Jones |
| Mr. Dominic Oakes | Jennie Downes |
| Y Parch. B H Jones | Collette Owen |

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

| | |
|---|---|
| Leah Crimes | Susan Williams |
| Sarah Griffiths | |

**Aelodau Cyfetholedig**

T. Ap Siôn

**COPÏAU AT:**

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd drwy gyfleuster fideogynadledda ddydd Iau, 15 Mehefin 2023, am 10.00am.

**YN BRESENNOL**

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Delyth Jones a Cheryl Williams

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol ac Argyhoeddiadau Athronyddol Anghrefyddol**

Jennie Downes a Collette Owen

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon**

Leah Crimes a Susan Williams

**HEFYD YN BRESENNOL**

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (PL), Prif Reolwr Addysg (JB) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ a NPH [Gweinyddwr Zoom])

## MYFYRIO TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig funudau o fyfyrdod tawel.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Gill German ac Emrys Wynne ynghyd â'r Parchedig Brian H Jones, Dominic Oakes, Sarah Griffiths a Tania Ap Siôn

## 2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Datganodd Jennie Downes gysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar y rhaglen CCYSAGC i'r graddau yr oedd yn ymwneud ag Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGC oherwydd ei bod yn enwebai.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Penderfynodd y Cadeirydd ei bwriad i gynnwys y mater canlynol i'w drafod oherwydd bod angen rhoi sylw brys iddo:-

**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gweithredol CCYSAGC**

Cytunwyd i ystyried yr eitem hon yn ystod eitem 8 ar y rhaglen gan ei fod yn ymwneud â CCYSAGC.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023 (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2023 fel cofnod cywir.*

## 5 CWRICWLWM I GYMRU

Rhoddodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol gyflwyniad ynglŷn â Rhestr Chwarae Dysgu Proffesiynol Llywodraeth Cymru ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, drwy gyswllt gwefan i wefan Hwb.

Hysbyswyd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adnoddau dysgu proffesiynol yn ddiweddar i gefnogi athrawon ac uwch arweinyddion i ddeall a chynllunio ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) a diben y cyflwyniad oedd cynorthwyo dealltwriaeth aelodau o’r gofynion a goblygiadau cynllunio CGM ar ysgolion a chodi ymwybyddiaeth o’r adnoddau hynny o fewn ysgolion ac ati.

Yn ystod y cyflwyniad dangoswyd i’r aelodau sut i gael mynediad i’r dudalen dysgu proffesiynol oedd yn canolbwyntio ar bump modiwl perthnasol i amrywiaeth o rhanddeiliaid: (1) Blynyddoedd Cynnar, (2) Ysgolion Cynradd, (3) Lleoliadau Uwchradd, (4) Anghenion Dysgu Ychwanegol, a (5) Phenaethiaid. At ddibenion y cyflwyniad, cafodd yr aelodau eu harwain drwy’r Rhestr Chwarae Penaethiaid.

Roedd meysydd wedi eu cynnwys fel rhan o’r Rhestr Chwarae Penaethiaid yn cynnwys -

- Croeso - i ddarparu cefnogaeth gyda’r newidiadau i’r CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru a thrawsnewid i ffordd newydd o feddwl, cynllunio a darparu CGM.
- Ymgysylltu Critigol - darparu astudiaethau achos ac enghreifftiau i gynnig ysbrydoliaeth a syniadau ar gyfer cynllunio i leoliadau ysgol unigol.
- Nod - datblygu mwy o ddealltwriaeth o’r newidiadau i CGM i gefnogi’r dull i weithredu newidiadau mewn lleoliadau ysgol penodol.
- manylu’r prif newidiadau yn codi o’r Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 gan ei fod yn ymwneud ag Addysg Grefyddol a CGM a beth oedd wedi aros yr un fath.
- Hunanwerthuso - rhoi’r cyfle i gynnal hunanwerthusiad
- Cwis - roedd aelodau wedi cymryd rhan mewn cwis rhyngweithiol i brofi eu gwybodaeth.
- Goblygiadau - manylu’r goblygiadau yn ymwneud â’r model dylunio’r cwricwlwm; staff; cyfathrebu gyda rhanddeiliaid a sgyrsiau gyda rhieni sydd o bosibl yn bryderus nad oedd yna hawl i dynnu eu plentyn allan o CGM.
- Crynodeb - darparwyd crynodeb o’r prif bwyntiau a phethau i’w hystyried.

Roedd aelodau yn croesawu'r deunydd adnodd cynhwysfawr a ddarparwyd a fyddai'n gefnogaeth werthfawr i ymarferwyr a chytunwyd bod llythyr canmoliaeth yn cael ei anfon at awduron y deunydd yn y cyswllt hwnnw.

Roedd yna drafodaeth bellach ar y sgyrsiau gyda rhieni oedd yn bryderus nad oedd yna unrhyw hawl i dynnu eu plant allan o CGM, a goblygiadau tynnu'r hawl i dynnu allan fesul cam, o ystyried y caiff plentyn ei dynnu allan o Addysg Grefyddol ond nid CGM. Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol ei fod eisoes wedi cael un ysgol yn cysylltu yn ceisio cyngor yn y cyswllt hwnnw a hefyd yn adrodd ar waith i'w wneud mewn cydweithrediad â CCYSAGC, NAPfRE a Llywodraeth Cymru ar lunio canllawiau ffurfiol yn y dyfodol. Fodd bynnag, nodwyd bod y pryderon a thrafodaethau hynny yn gyfredol a chytunwyd i ganllawiau/pwyntiau bwled gael eu datblygu yn y cyfamser gyda'r bwriad i ddarparu cefnogaeth fuan i fynd i'r afael â'r materion a phryderon hynny. Byddai unrhyw ganllawiau ffurfiol dilynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn naturiol yn disodli'r canllawiau dros dro a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. I'r perwyl hwnnw, cytunwyd y byddai'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a'r Prif Reolwr Addysg ynghyd â chynrychiolwyr o'r ddwy Esgobaeth a chynrychiolwyr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried ffurfio'r canllawiau dros dro hynny i ysgolion Sir Ddinbych.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *derbyn y cyflwyniad gan yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol;*

*(b)* *aelodau i wneud ysgolion mae ganddynt gysylltiad â nhw yn ymwybodol o'r adnoddau dysgu proffesiynol;*

*(c)* *anfon llythyr canmoliaeth at awduron yr adnoddau dysgu ar y deunydd ardderchog a ddarparwyd a'i werth i'r sector addysg, a*

*(d)* yr *Ymgynghorydd Addysg Grefyddol i weithio gyda*'r P*rif Reolwr Addysg ynghyd â chynrychiolwyr Esgobeth yr Eglwys yng Nghymru (Jennie Downes) ac Esgobaeth Gatholig Rufeinig (Coletter Owen) a chynrychiolwyr ysgol (Sue Williams a'r ysgol oedd wedi gofyn am gyngor ar y mater) gyda'r bwriad i lunio canllawiau ar ddileu'r hawl i dynnu allan o CGM.*

## 6 CYNLLUNIO AR GYFER Y CWRICWLWM NEWYDD

Rhoddodd Leah Crimes, Pennaeth Ysgol y Santes Ffraid, Dinbych gyflwyniad ar sut oedd yr ysgol wedi cynllunio a gweithredu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) o fewn y Cwricwlwm i Gymru hyd yma, ynghyd â'r camau nesaf.

Rhoddodd Ms Crimes rhywfaint o gyd-destun i Ysgol y Santes Ffraid oedd yn ysgol grefydd 3-19 gwirfoddol a gynorthwyir gyda nod crefyddol dynodedig oedd yn Gatholig Rufeinig. Roedd CGM yn statudol ar hyn o bryd hyd at flwyddyn 6 ac o fis Medi byddai'n statudol hyd at flwyddyn 8. Roedd yr ysgol wedi mapio a threialu eu cynllun CGM cyfan o'r feithrinfa i Flwyddyn 7 oedd wedi bod yn gweithio'n dda.

Roedd yr elfennau canlynol wedi eu cynnwys yn y cyflwyniad cynhwysfawr -

- Gweledigaeth Cwricwlwm Ysgol y Santes Ffraid - yn darparu rhywfaint o hanes i'r ysgol, ethos a gwerthoedd a datganiad bwriad a gwaith i sicrhau bod yr ysgol wedi gallu bod yn blwraliaethol tra'n hybu dysgu'r Eglwys Gatholig.
- yn cyfuno'r Proffil Pedwar Diben a Dysgu Catholig i greu'r Proffil Dysgwr Santes Ffraid yn sail i'r Cwricwlwm i Gymru.
- gweledigaeth CGA ardderchog i gyflwyno dinasyddion byd-eang, meddylwyr beirniadol, unigolion empathetig, ymarferwyr hunan-fyfyriol yn ogystal ag arbenigwyr crefyddol.
- y siwrnai hyd yma - mapio drwy'r 7 lens yn unol â thestunau ehangach a chynnal yr ethos Catholig a ffordd Santes Ffraid ynghyd â'r cwricwlwm CGM.
- darparwyd enghreifftiau manwl o'r mapio CGM Ysgol Isaf drwy dymhorau'r ysgol a thestunau ar gyfer Dosbarth Meithrin a Derbyn hyd at Flynyddoedd 1, 2, 3 a 4.
- y camau nesaf i feddwl am 'beth yw'r Llinyn Euraidd' sy'n rhedeg drwy'r straeon i blant cysylltiedig â chysyniadau gyda mapio a gwaith archwilio pellach.
- mapio'r cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ym Mlynyddoedd 7, 8 a 9 ac ystod o destunau wedi eu hystyried.
- ymdrechu i baratoi'r dysgwyr gyda'r sgiliau i benderfynu ar y gwir
- disgyblion i astudio testunau yn archwilio amrywiaeth cred yn y byd modern
- darparwyd adnoddau 'blasu' o'r gwersi Blwyddyn 7
- eglurwyd nod cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ysgol y Santes Ffraid i gyflawni deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, bodloni Proffil Dysgwyr Santes Ffraid, paratoi i archwilio Datganiad Beth sy'n Bwysig y Dyniaethau a chynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy a llunio cysylltiadau gyda disgyblaethau eraill.

Diolchodd y Cadeirydd i Ms Crime am y cyflwyniad diddorol a llawn gwybodaeth a chafodd ymateb da gan yr aelodau oedd yn cydnabod gwaith caled a wnaed i gynllunio a gweithredu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn yr ysgol ynghyd â'r dull cydweithredol ar gyfer lles y disgyblion i gyd. Roedd yn arbennig o ddiddorol gweld sut oedd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi'i weithredu fel ysgol ffydd ddynodedig.

Mewn ymateb i gwestiynau, eglurodd Ms Crimes gyfraniad Ymddiriedolwyr a Llywodraethwyr o fewn y broses oedd hyd yma wedi bodloni holl rhanddeiliaid a hefyd egluro sut oedd gwybodaeth wedi'i rhannu gyda rhieni, gyda diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau drwy Seesaw a Google Classroom.

Ar ddiwedd y drafodaeth, diolchodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol, gan ddweud ei fod wedi gofyn i Ms Crimes roi'r cyflwyniad yng nghyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru ddydd Llun. Roedd yn ddiddorol nodi fel Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir, nid oedd Ysgol y Santes Ffraid wedi'i chynnwys yn sgôp CYSAG a CCYSAGC o'r blaen.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r adroddiad.*

## 7 DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGON

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol adroddiad (dosbarthwyd ymlaen llaw) yn dadansoddi canlyniadau arolygon diweddar Estyn o ran darpariaeth

Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd mewn deuddeg ysgol rhwng Mai 2022 a Mai 2023.

Mae arolygon wedi eu cynnal yn Ysgol Gynradd Pentrecelyn; Ysgol Pendref; Ysgol Penmorfa; Ysgol Caer Drewyn; Ysgol Gynradd Carrog; Ysgol Castell, Ysgol Borthyn, Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir, Ysgol Llewellyn; Ysgol Frongoch; Ysgol Uwchradd Prestatyn; Ysgol Uwchradd Y Rhyl ac Ysgol Uwchradd Glan Clwyd.

Roedd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol wedi darparu crynodeb byr o'r canfyddiadau yn ymwneud â phob ysgol a sylwadau oedd yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Oherwydd newidiadau yn y broses arolwg, roedd y nifer o sylwadau sy'n ymwneud â darpariaeth Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd mewn ysgolion wedi gostwng ac o ganlyniad roedd adroddiadau i CYSAG wedi eu cyflwyno yn flynyddol yn hytrach na phob tymor fel mewn blynyddoedd blaenorol. Nid oedd unrhyw arolygon wedi eu cynnal yn ystod y pandemig Covid ac roedd yr adroddiad yn manylu arolygon a gynhaliwyd ers hynny. Roedd rhywfaint o wybodaeth cyd-destun yn ymwneud â phob ysgol hefyd wedi'i darparu fel y gofynnwyd yn flaenorol gan CYSAG.

Roedd Aelodau yn falch o nodi ailddechrau dadansoddiad blynyddol o adroddiadau arolwg yn dilyn y pandemig a'r sylwadau cadarnhaol a wnaed oedd yn rhoi cipolwg ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn ysgolion Sir Ddinbych a'r gwaith a wnaed.

Ar y pwynt hwn, dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am gyfarfod ar 14 Chwefror 2023 rhwng Estyn ac Aelodau Gweithredol CCYSAGC ynglŷn â monitro safonau a chynnydd (cofnodion CCYSAGC ar 21 Mawrth 2023 yn cyfeirio) oedd yn cynnwys testunau fel: Monitro darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ysgolion ac ystyried y Maes Llafur a gytunwyd; monitro safonau a chynnydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg; Addoli ar y Cyd ac ymarfer effeithiol. Nodwyd na fyddai ysgolion yn cael eu harolygu'n benodol mewn perthynas ag ansawdd darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ond sicrhau bod CGM yn cael ei addysgu a bodloni'r gofynion statudol. O ran Addoli ar y Cyd, roedd canllawiau Estyn 2017 yn parhau'n berthnasol. Roedd Estyn a CCYSAGC wedi ystyried bod y cyfarfod yn fuddiol a chytunwyd i gyfarfod ddwywaith y flwyddyn yn y dyfodol, gyda chydweithwyr Estyn yn derbyn gwahoddiad i roi diweddariadau ym mhrif gyfarfodydd CCYSAGC fel bo'r angen. Ychwanegodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol y byddai peilot Fframwaith Arolwg newydd Estyn ar gyfer 2024 yn debyg o gael ei gynnal o dymor y Gwanwyn ymlaen. O ystyried perthnasedd y fframwaith arolwg newydd, byddai manylion pellach yn cael eu darparu mewn cyfarfod CYSAG yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *derbyn a nodi'r adroddiad.*

(b) *Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod eu Hadroddiad Arolygu wedi ei ystyried, eu llongyfarch ar yr elfennau da a nodwyd, a'u hatgoffa o wasanaethau'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella*

*Ysgolion mewn perthynas ag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater y mae angen mynd i'r afael ag ef.*

(c) *y dylid gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau i'r ysgolion dan sylw.*

**8 CCYSAGC**

- **Cofnodion CCYSAGC - 21 Mawrth 2023**

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd drwy Microsoft Teams ar 21 Mawrth 2023 (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Arweiniodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol yr aelodau drwy'r cofnodion. Rhoddwyd sylw penodol i Gofnod Rhif 9 Sgyrsiau gyda chydweithwyr Lloegr (NASACRE, REC, Canolbwyntiau Addysg Grefyddol Rhanbarthol) o ystyried bod addysg yng Nghymru yn dod yn gynyddol wahanol i Loegr gyda chyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru newydd a sut yr oedd y sefydliadau hynny yn gweithio gyda'i gilydd. Byddai trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda'r sefydliadau hynny i ddatblygu'r berthynas rhwng NASACRE a CCYSAGC; yn galluogi cyfathrebu a chydweithio gwell gyda REC dros yr hirdymor ac o bosibl sefydlu fforwm REC Cymru, a mynd i'r afael â materion a godwyd ynglŷn â datblygu canolbwyntiau Addysg Grefyddol Rhanbarthol heb gyfathrebu uniongyrchol gyda CCYSAGC neu NAPfRE a'r ffordd ymlaen. Hefyd, cyfeiriodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol at y Gynhadledd EFTRE ac anogodd aelodau i ymweld â gwefan EFTRE oedd yn rhoi cipolwg ar Addysg Grefyddol ar draws Ewrop.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion cyfarfod CCYSAGC a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023.*

- **Cyfarfod CCYSAGC - 19 Mehefin 2023**

Byddai'r cyfarfod CCYSAGC nesaf yn cael ei gynnal ar-lein drwy Zoom ar 19 Mehefin 2023 a chynhelir gan Sir Ddinbych. Nodwyd y byddai'r Pennaeth Addysg, Geraint Davies yn rhoi araith groesawu. Gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu â naill ai'r Ymgynghorydd Addysg Grefyddol neu'r Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer dolen i'r cyfarfod os oeddent yn dymuno bod yn bresennol.

- **Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gweithredol CCYSAGC**

[Ystyriwyd y mater hwn fel mater brys, a rhoddodd y Cadeirydd rybudd o hyn ar ddechrau'r cyfarfod].

Ar ôl datgan cysylltiad personol sy'n rhagfarnu yn y mater hwn, gadawodd Jennie Downes y cyfarfod ar y pwynt hwn ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio.

Dywedodd yr Ymgynghorydd Addysg Grefyddol am dri enwebiad a dderbyniwyd ar gyfer y ddwy swydd ar y Pwyllgor Gweithredol, yn benodol Jennie Downes, CYSAG Sir Ddinbych/CYS, y Cynghorydd Arfon Wyn, CYSAG Ynys Môn/CYS ynghyd â

Marged Williams a Tyler Saunders, CYSAG/CYS Morgannwg (rhannu swydd), a gofynnwyd am farn aelodau ar yr ymgeiswyr hynny.

Roedd Aelodau yn ystyried cefndir a phrofiad yr ymgeiswyr a chytunwyd fod gan bob un eu rhinweddau. Yn dilyn trafodaeth fer -

***PENDERFYNWYD*** *bod Jennie Downes, Sir Ddinbych ac Arfon Wyn, Ynys Môn yn derbyn pleidlais CYSAG Sir Ddinbych i'w hethol i'r CCYSAGC/Pwyllgor Gweithredol.*

## 9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Byddai cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych yn cael ei gynnal ar 17 Hydref 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.40 am.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>17 Hydref 2023</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>5</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Cyhoeddodd Sir Ddinbych ei faes llafur cytunedig yn Haf 2022. Daeth y Cwricwlwm i Gymru yn statudol ar gyfer pob ysgol gynradd ym mis Medi 2022 a disgyblion blwyddyn 7 ac 8 fis Medi eleni. Mae ysgolion wedi cael blwyddyn i dreialu, cynllunio a gwerthuso eu harferion o ran y cwricwlwm newydd.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Caniatáu i aelodau'r CYSAG drafod sut mae ysgolion yn addasu i'r cwricwlwm newydd. Cyfle i Lywodraethwyr a'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion rannu eu profiadau.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>▪ Rhannu arferion da o bosibl o fewn Rhwydwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Cyngor Sir Ddinbych.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>17 Hydref 2023</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>6</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae’n ofyniad statudol ar y CYSAG i lunio Adroddiad Blynyddol o’i waith a chyflwyno'r adroddiad hwn i AdAS erbyn 31 Rhagfyr.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Nodi a chofnodi gwaith y CYSAG yn ystod y flwyddyn<br>o fis Medi 2021 tan fis Gorffennaf 2022</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>▪ Cymeradwyo’r adroddiad, yn amodol ar unrhyw newid, fel cofnod cywir.<br>▪ Gofyn i’r awdurdod lleol gyfieithu’r adroddiad i’r Gymraeg, a’i anfon at bob ysgol a choleg yn Sir Ddinbych, ac unrhyw sefydliad arall yn unol â’r gyfraith ac fel y nodwyd yn yr adroddiad.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council



# Adroddiad Blynyddol

**y**

## Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol



# 2022-23

## Rhagair

Rôl y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol:

Prif rolau CYSAG yw:

- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion yn ymwneud ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, neu Ddatblygiad Ysbrydol a Moesol;
- Ystyried ceisiadau gan benaethiaid bod eu hysgol yn cael ei rhyddhau rhag y gofyniad statudol bod Addoli ar y Cyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur gyffredinol Gristnogol (gelwir y fath geisiadau'n 'Ddyfarniadau'.)
- Gorchymyn fod Awdurdod Lleol yn adolygu ei Faes Llafur Cytunedig;
- Monitro darpariaeth Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn ysgolion yr Awdurdod Lleol;
- Rhoi cyngor ar y maes llafur cytunedig gydag athrawon Addysg Grefyddol, gan gynnwys y dewis o ddeunyddiau athrawon;
- Cynghori'r Awdurdod Lleol ar ddarparu hyfforddiant i athrawon (mewn AG);
- Ystyried cwynion am y ddarpariaeth a chyflawniad AG ac addoli ar y cyd a wneir i'r Awdurdod Lleol.
- Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar ei waith.

Cyfansoddiad y CYSAG:

Mae'r gofynion statudol dros sefydlu pwyllgorau CYSAG yn gorchymyn creu tri phwyllgor o aelodau:

- Cynrychiolwyr enwadau Cristnogol neu grefyddau eraill a'u henwadau i adlewyrchu prif draddodiadau crefyddol yr ardal leol;
- Cynrychiolwyr yr athrawon;
- Cynrychiolwyr y Cyngor Sir.

Mae hawl hefyd i gyfethol aelodau.

## CYNNWYS


| | Rhif Tudalen: |
|---|---|
| **1. Crynodeb Gweithredol** | 4-5 |
| **2. Cyngor i'r ALI:** | 6-13 |
| a) Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytunedig | |
| b) Dysgu ac addysgu a darparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon | |
| c) Addoli ar y Cyd | |
| d) Cyfansoddiad | |
| **3. Materion Eraill:** | 13-15 |
| a) Materion lleol | |
| b) Materion cenedlaethol: | |
| i. Estyn | |
| ii. AdAS (Addysg Cymru) | |
| iii. CCYSAGC | |
| c) Cwynion | |
| **4. Atodiadau:** | 15-16 |
| a) Cyfansoddiad y CYSAG | |
| b) Nifer y cyfarfodydd a'u dyddiadau | |
| c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad | |
| d) Newyddlen | |


*Lluniau ar y clawr – wedi'u defnyddio ar drwydded o luniau Adobe Stock*

## Crynodeb Gweithredol

| ***Testunau/Materion:*** | ***Cyngor a roddwyd:*** | ***Wedi'i weithredu gan yr ALl:*** |
|---|---|---|
| AG: Maes llafur cytunedig | • Cynhaliodd Awdurdod Lleol Dinbych Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig (ASC) ar 14 Mawrth 2022. Cynghorodd yr ASC y dylai'r ALl fabwysiadu'r Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg fel sail ar gyfer y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Addysg Grefyddol yn dal yn berthnasol i flynyddoedd 9-11 yr ysgol uwchradd. | ✓ |
| AG: Safonau | • Ar ôl ystyried Adroddiadau Arolygiadau, anfonir llythyrau at ysgolion yn eu llongyfarch ar eu nodweddion da. | ✓ |
| AG: Dysgu ac Addysgu | • Mae canllawiau atodol wedi'u llunio i gefnogi dealltwriaeth ysgolion a chynllunio ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru 2022.<br>• Dylai'r ALl barhau i hyrwyddo a gwneud ysgolion yn ymwybodol o'r canlynol:<br>○ Y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg<br>○ Y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol<br>○ Canllawiau ategol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg<br>○ GwE - Dadbacio AOLE y Dyniaethau (Uwchradd)<br>○ Canllawiau Cynhwysfawr ar gyfer AG<br>○ AG yn y Cyfnod Sylfaen<br>○ Marc Ansawdd AG<br>○ Rhwydwaith Hwb AG Gogledd Cymru<br>○ Mae'r newyddlen flynyddol yn cynnwys cyfeiriad at ddeunyddiau addysgu defnyddiol<br>○ Dyfarniad Lefel 2 Agored Cymru mewn Archwilio Bydolygon<br>○ Dysgu proffesiynol am amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL)<br>○ Adnoddau gwrth-hiliaeth Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Grefyddol<br>○ Herio Materion Crefyddol Ôl-16 (E-ddyddlyfr) | ✓<br><br><br><br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓<br>✓ |
| AG: Darparu Hyfforddiant | • Nid oes unrhyw gyflwyniadau wedi'u derbyn gan ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon. | |


| | | |
|---|---|---|
| Cychwynnol i Athrawon | | |
| Addoli ar y Cyd | • Cyhoeddodd CCYSAGC ganllawiau ar dynnu disgyblion allan o Addoli ar y Cyd - Hydref 2021. | ✓ |
| Cyfansoddiad | • Aelod ychwanegol sy'n cynrychioli bydolwg nad yw'n grefyddol i gael ei ychwanegu i'r grŵp ar CYSAG i gynrychioli Ffydd ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yn unol â'r cyngor a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Ceisio cynrychiolaeth ar gyfer dyneiddwyr ar gyfer Grŵp Pwyllgor A. | ✓ |
| Materion Eraill: Lleol | • Mae ail newyddlen wedi cael ei chyhoeddi – bydd yr ALI yn ei rhannu â phob ysgol. | ✓ |
| Materion Eraill: Cenedlaethol | • Mae'r Aelodau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf o Adroddiadau Arolygon Estyn neu ddogfennau sy'n ymwneud ag AG ac Addoli ar y Cyd.<br>• Mae LlC wedi cyhoeddi canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.<br>• Mae'r CYSAG yn parhau i fod yn aelod o CCYSAGC. Mae cynrychiolwyr yn mynd i gyfarfodydd y gymdeithas ac yn adrodd yn ôl ohonynt.<br>• Cynhaliodd Sir Ddinbych gyfarfod haf CCYSAGC. | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ |
| Materion eraill: Ychwanegol | • Dim materion ychwanegol. | |
| Cwynion | • Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion. | |

## 2. Cyngor i'r ALI:

### a. Addysg Grefyddol a'r Maes Llafur Cytunedig


**i. Y Maes Llafur Cytunedig**

**Maes Llafur ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (Cwricwlwm i Gymru 2022)**




Cyhoeddodd Awdurdod Lleol Sir Ddinbych ei Faes Llafur Cytunedig Lleol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ystod haf 2023. Mae'r Maes Llafur Cytunedig yn seiliedig ar Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gwnaed newidiadau i sicrhau y gellir darllen y ddogfen fel Maes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac mae pob adran wedi'i rhifo er mwyn gallu edrych drwyddi'n hawdd.


Yn unol â'r newidiadau i'r Cwricwlwm i Gymru 2022, bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei addysgu i'r holl blant cynradd a dysgwyr blwyddyn 7 ac 8 (yn ystod blwyddyn academaidd 2023-24).





Bydd ysgolion uwchradd yn parhau i addysgu cwricwlwm cyn 2022 (a elwir yn Cwricwlwm i Gymru 2008), gan gynnwys y Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol, i ddisgyblion blwyddyn 9 i 11 ym mis Medi 2023.

I lawr lwytho copi o Faes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ewch i….
Saesneg –
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhd8mIfgDThYuSHs_Hg?e=mHlWCW
Cymraeg-
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhd9HfvczJ5abJjroPA?e=bugpZd

**Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol (Cwricwlwm i Gymru 2008)**




Mae'r Maes Llafur Cytunedig, sy'n cydymffurfio â gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru 2022, yn ymwneud â'r testun a elwir 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg'. Mae'r Maes Llafur Cytunedig blaenorol, sy'n parhau i fod yn berthnasol ar gyfer ysgolion uwchradd am y rhesymau a nodwyd uchod, yn ymwneud â'r pwnc a elwir 'Addysg Grefyddol'. Mae hyn yn wahaniaeth pwysig.

Mabwysiadodd Sir Ddinbych 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol ar gyfer rhai 3-19 oed' fel Maes Llafur Cytunedig Lleol ar gyfer 'Addysg Grefyddol' yn 2008. I lawrlwytho copi o'r Maes Llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol ewch i:

Saesneg -
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhJkRqyAGO2b1HtmpnQ?e=D98kuj
Cymraeg -
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhJkPk7GnR4j8dGRkWQ?e=WUXJSs
**ii. Safonau**

**<u>Adroddiadau Arholiadau</u>**


Yn sgil canllawiau parhaus gan Lywodraeth Cymru ar y ffordd y cyflwynir data ac er mwyn osgoi cymariaethau mympwyol o ysgolion, ni chafodd yr aelodau'r data arholiadau ar gyfer yr arholiadau a gyflawnwyd yn 2021/22 ac felly nid oedd modd eu trafod.


Mae prif swyddog addysg Sir Ddinbych wedi mynychu holl gyfarfodydd CYSAG eleni. Mae perthynas llawer nes wedi bod rhwng yr ALl a'r CYSAG a bydd hynny'n parhau. Bydd y prif swyddog addysg yn gallu dod o hyd i ysgolion sydd angen cefnogaeth ychwanegol trwy hunanarfarniadau'r ysgolion, arolygon Estyn a thrwy gydweithio â'r consortia rhanbarthol.

**<u>Adroddiadau Arolygon</u>**

Nid oes unrhyw farn am bynciau yn fframwaith arolygu cyfredol Estyn. Yn hytrach, mae aelodau'n derbyn gwybodaeth o'r adroddiadau yn ymwneud â sylwadau Estyn am ddarpariaeth Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol ysgol. Gweler rhan c. Addoli ar y cyd – Monitro darpariaeth – Adroddiadau arolygon.

Cynhaliodd Estyn adolygiad thematig o Addysg Grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 Cyhoeddodd Estyn ei ganfyddiadau ym mis Mehefin 2018. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion o ganlyniad i'r canfyddiadau. Cliciwch y llun i weld yr adroddiad:




Mae'r adroddiad ynghlwm yn amlinellu'r argymhellion a grynhowyd isod.

**Dylai ysgolion:**

A1 Sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni yn unol â'u gallu mewn addysg grefyddol.

A2 Cryfhau trefniadau monitro a hunanarfarnu yng nghyfnod allweddol 2 i ganolbwyntio ar wella safonau a medrau disgyblion mewn addysg grefyddol.

A3 Cryfhau trefniadau pontio fel bod profiadau dysgu yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu ar y rheiny yng nghyfnod allweddol 2 ac yn osgoi ailadrodd gwaith.

A4 Arfarnu eu cwricwlwm ar gyfer addysg grefyddol i baratoi ar gyfer datblygu a gweithredu Maes Dysgu a Phrofiad newydd y Dyniaethau.

**Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:**

A5 Weithio gyda CYSAGau i ddarparu:

a. cyfleoedd dysgu proffesiynol addas ar gyfer athrawon addysg grefyddol.

b. cymorth i ysgolion arfarnu eu cwricwlwm a chynllunio ar gyfer addysg grefyddol fel rhan annatod o ddatblygu maes dysgu a phrofiad y dyniaethau.

c. cyngor i ysgolion ar sut i fynd i'r afael â materion sensitif gyda disgyblion a sut i ddelio â phryderon rhieni ar ymweld â mannau addoli.

A6 Sicrhau bod pob arweinydd yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

A7 Rhoi arweiniad i ysgolion ar leoedd addoli cymeradwy i ymweld â nhw.

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Weithio gydag awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a CYSAGau i sicrhau bod eglurder ynglŷn â lle addysg grefyddol o fewn maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau.


## b. Dysgu ac Addysgu

### Cwricwlwm i Gymru 2022

I gael gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru 2022 gwyliwch y sesiwn hyfforddi 35 munud o hyd a drefnwyd gan Gyngor Sir Ddinbych.

### Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - Canllawiau Atodol




Mae canllawiau atodol wedi'u llunio i gefnogi dealltwriaeth a chynllunio ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn cyd-destun y Cwricwlwm i Gymru 2022. Mae'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth am:

- Cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Cysyniadau wedi'u croesgyfeirio gyda Datganiadau AOLE Dyniaethau o Beth sy'n Bwysig a Disgrifiadau o Ddysgu
- Lensys Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Teithiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg
- Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau eu hystyried.

Lawrlwytho copi gan ddefnyddio'r dolenni cyswllt isod:
Saesneg -
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhd9Fsz8MOiglHzmFSw?e=Ft4QkH
Cymraeg -
https://1drv.ms/b/s!Ai7Z9WAeWMNXhd9Yj5eNwB9YBEA2XA?e=KaQ8Cr

### GwE - Dadbacio AOLE y Dyniaethau (Uwchradd)

Yn ystod tymor yr haf 2022, darparodd GwE ddau sesiwn hyfforddiant ar gyfer athrawon dyniaethau ysgolion uwchradd gan ddarparu negeseuon allweddol o ran yr AOLE hwn.

Canolbwynt y sesiwn gyntaf:

- Dealltwriaeth o elfennau hanfodol y fframwaith Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â'r Dyniaethau.
- Egwyddorion cynllunio ac ystyriaethau allweddol ar gyfer y Dyniaethau
- Ystyriaethau Addysgeg o fewn adran 'Dylunio eich cwricwlwm' a amlinellwyd yng nghanllawiau AoLE.

Cyflwyniad Saesneg - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/06/Humanities-Session-1.pdf
Cyflwyniad Cymraeg - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/06/Dyniaethau-1.pdf
Fideo Saesneg - https://www.youtube.com/watch?v=b3LpzxDCERw
Fideo Cymraeg - https://www.youtube.com/watch?v=b3LpzxDCERw&t=7s

Canolbwynt yr ail sesiwn:

- Datblygu dealltwriaeth a rennir o'r continwwm dysgu
- Ystyried agweddau cynllunio ac asesu
- Archwilio ymagweddau addysgeg effeithiol o fewn a thu hwnt i'r AoLE

Cyflwyniad Saesneg- http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/07/Session-2-Humanities-eng.pdf
Cyflwyniad Cymraeg http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2022/07/Sesiwn-2-Dyniaethau_-CYFRWNG-CYMRAEG.pdf
Fideo Saesneg - https://www.youtube.com/watch?v=ZuE-HbpwB1Y&t=3s
Fideo Cymraeg - https://www.youtube.com/watch?v=Z1gemVVRzZQ


**Addysg Grefyddol**


Mae'r CYSAG a'r ALl yn y gorffennol wedi darparu dogfennau a deunyddiau cynhwysfawr i gefnogi'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol, ac mae'r rhain yn cynnwys cyngor ar ddulliau addysgu a darparu AG.

Mae ysgolion yn parhau i gael mynediad at a defnyddio'r dogfennau cynllunio 'Canllaw Cynhwysfawr i AG' ac 'AG yn y Cyfnod Sylfaen', sy'n cyd-fynd â'r Maes Llafur Cytunedig.  Gellir addasu'r adnoddau hyn ar gyfer darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y sector cynradd a bydd yn parhau i fod yn berthnasol i'r grwpiau blwyddyn sy'n astudio Addysg Grefyddol.  Mae'r adnoddau ar gael ar Rwydwaith Hwb - Rhwydwaith Addysg Grefyddol Gogledd Cymru. Er mwyn lawrlwytho copi o'r adnoddau hyn, ewch i:

**Canllawiau Cynhwysfawr i AG**

Saesneg - https://drive.google.com/file/d/1G9jCYby8XQJgg9m8JN6HYA3sr_jR5E18/view?usp=sharing
Cymraeg - https://drive.google.com/file/d/1OsNQ-UtnolkWTIWzxBuJQfz7tVLohhmI/view?usp=sharing







**AG yn y Cyfnod Sylfaen**

Saesneg - https://drive.google.com/file/d/1X-9J8auJglQ-GzGk12o-002s81gdQ8tV/view?usp=sharing
Cymraeg - https://drive.google.com/file/d/17itLQaqOsQ6WjLdk_ee1AlaigdqwKW0w/view?usp=sharing






**Marc Ansawdd Addysg Grefyddol**

Mae deunyddiau hunanarfarnu'n parhau i gael eu hyrwyddo ac ar gael ar wefan REQM. Mae Marc Ansawdd AG yn cydnabod, dathlu a hyrwyddo addysg grefyddol ragorol yn holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon trwy wobr ar dair lefel – efydd, arian ac aur. Mae rhagor o wybodaeth am y marc ansawdd ar https://www.reqm.org/

**Rhwydwaith Hwb AG Gogledd Cymru**

Mae deunyddiau addysgu ac ymchwilio ar gael ar gyfer athrawon trwy rwydwaith AG Gogledd Cymru - Hwb- https://hwb.gov.wales/go/d8tfh3. Dim ond y rhai gyda chyfrif Hwb fydd yn gallu cael mynediad at y deunyddiau ar y rhwydwaith. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys adnoddau addysgu a deunydd ymchwil sy'n berthnasol ar gyfer Addysg Grefyddol. Deunydd ymchwil allweddol sydd ar gael:

- Crefyddau a Bydolygon: The Way Forward for RE (Yn Saesneg yn unig)
- Big Ideas for Religious Education – Wedi'i olygu gan Barbara Wintersgill (yn Saesneg yn unig)
- Signposts – Policy and practice for teaching about religions and non-religious world views (yn Saesneg yn unig)

**AGORED CYMRU DYFARNIAD LEFEL 2 MEWN ARCHWILIO BYDOLYGON**

Derbyniodd Aelodau CYSAG gyflwyniad am ddatblygiad Agored Cymru ar gyfer 'Archwilio Bydolygon', cyfres o gymwysterau lefel 1 a 2 yn cefnogi dealltwriaeth o fydolygon crefyddol a rhai nad ydynt yn grefyddol. Mae'r cymhwyster yn diwallu tair o sgiliau craidd a nodwyd yn y fframwaith enghreifftiol (cwricwlwm presennol),

ac mae'n darparu cyfleoedd ar gyfer archwilio cysyniadau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy ddatganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau yn y Cwricwlwm i Gymru (cwricwlwm newydd). Nid yw wedi'i ddylunio i ddisodli TGAU Astudiaethau Crefyddol, ond, bydd yn darparu cymhwyster cydnabyddedig hygyrch gan ganiatáu i'r ysgol ddiwallu ymrwymiadau statudol yng Nghyfnod Allweddol 4. Gellir canfod rhagor o fanylion drwy fynd i
Saesneg - [https://www.agored.cymru/Units-and-Qualifications/Learning-Core/Exploring-Worldviews](https://www.agored.cymru/Units-and-Qualifications/Learning-Core/Exploring-Worldviews)
Cymraeg - [https://www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Craidd-Dysgu/Archwilio-Bydolygon](https://www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Craidd-Dysgu/Archwilio-Bydolygon)

**Dysgu proffesiynol am amrywiaeth a gwrth-hiliaeth (DARPL)**

Mae gwefan DARPL yn cynnwys ystod o ddeunyddiau hyfforddi i gefnogi'r agwedd bwysig hon o'r Cwricwlwm i Gymru 2022.
Saesneg - [https://darpl.org/](https://darpl.org/)
Cymraeg - [https://darpl.cymru/](https://darpl.cymru/)

**Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Grefyddol**

Mae ysgolion wedi cael gwybod am adnoddau gwrth-hiliaeth sydd ar gael gan NATRE. Yn anffodus, yn Saesneg yn unig y mae'r adnoddau hyn. Gellir cael mynediad atynt yma… [https://www.natre.org.uk/about-natre/projects/anti-racist-re/](https://www.natre.org.uk/about-natre/projects/anti-racist-re/)

**Herio Materion Crefyddol Ôl-16 (E-ddyddlyfr)**




Mae Herio Materion Crefyddol yn ddyddlyfr ar gyfer myfyrwyr ac athrawon Astudiaethau Crefyddol UG a Safon Uwch. Mae hefyd yn adnodd defnyddiol i unrhyw un sydd eisiau datblygu neu loywi eu gwybodaeth am bwnc. Mae dros 65 o erthyglau dyddlyfr mynediad agored wedi'u cyhoeddi yn y dyddlyfr hyd yma ac mae'n cynnwys erthyglau gan ysgolheigion ac ymarferwyr blaenllaw. Mae'r erthyglau yn gysylltiedig â manylebau Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol. Mae'r erthyglau yn rhyngweithiol drwy ddefnyddio 'pwyntiau trafod' a chysylltiadau byw gyda gwefannau allanol perthnasol. Mae'r holl rifynnau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae Canolfan San Silyn wedi ariannu a rheoli'r fersiwn Gymraeg o rifyn 14 ymlaen. Cliciwch ar y ddolen isod i gael mynediad at Herio Materion Crefyddol ar wefan San Silyn.
Saesneg - [https://stgilescentre.org/16-2/](https://stgilescentre.org/16-2/)
Cymraeg - [https://stgilescentre.org/cy/16-2/](https://stgilescentre.org/cy/16-2/)

**Fforwm Ewropeaidd i Athrawon Addysg Grefyddol**

Mae addysgu Addysg Grefyddol yn amrywio'n fawr ar hyd a lled Ewrop. I gael mwy o wybodaeth am Addysg Grefyddol mewn gwledydd cyfagos, ewch i[www.eftre.net](http://www.eftre.net)

**Darparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon**


Ni dderbyniwyd unrhyw gyflwyniadau gan sefydliadau Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon eleni.

## c) Addoli ar y Cyd

**Monitro darpariaeth**

**Adroddiadau Arolygon**






Cafodd canllaw atodol Estyn ar arolygu addoli ar y cyd ei ddiweddaru ym mis Tachwedd 2017 ac mae'n parhau i nodi bod Estyn yn mynnu bod timau arolygu'n ystyried y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion a gweithrediadau dyddiol o addoli ar y cyd ym mhob ysgol anenwadol.  Rhaid i dimau arolygu ystyried yr agweddau hyn ar bob arolwg ac mae pob adroddiad yn debygol o gynnwys rhai sylwadau am yr agweddau hyn o ddatblygiad disgyblion.  Fodd bynnag, ni ddisgwylir i arolygwyr adrodd ar ansawdd yr Addoli ar y Cyd.  Dylai pob tîm arolygu bwyso a mesur arwyddocâd unrhyw gryfderau a gwendidau ymhob maes arolygu.

Ni ddisgwylir i arolygwyr adrodd i ddweud a yw ysgol yn diwallu'r ddyletswydd statudol i ddarparu gweithred ddyddiol o addoli ar y cyd ai peidio, ond bydd disgwyl iddynt wneud sylw yn yr adroddiad pe bai ysgol yn torri ei dyletswydd statudol.

Fel rhan o'r broses o fonitro, caiff Adroddiadau Arolygiadau Estyn eu dadansoddi o ran sylwadau am addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cael eu casglu a'u nodi gan y CYSAG. Anfonir llythyrau at ysgolion ar ôl iddynt gael eu hystyried gan y CYSAG, yn canmol arferion da. Ailddechreuodd Estyn yr arolygon yn ystod haf 2022. Cafodd 12 o adroddiadau arolygiadau eu dadansoddi a'u cyflwyno i aelodau CYSAG yn ystod cyfarfod tymor yr haf.

| Sylwadau Cadarnhaol mewn Meysydd Arolygu: | Nifer yr ysgolion |
|---|---|
| Lles ac agweddau at ddysgu | 3 |
| Profiadau Addysgu a Dysgu | 2 |
| Gofal, Cefnogaeth ac Arweiniad | 10 |

**<u>HMS ar gyfer Addoli ar y Cyd</u>**

Cyhoeddodd CCYSAGC ganllawiau ar dynnu disgyblion allan o Addoli ar y Cyd - Hydref 2021.
Saesneg -
https://drive.google.com/file/d/1ul4lrhlHGeDrKC2EYU3LpypJdsussTX0/view

Cymraeg -
https://drive.google.com/file/d/149OtijKIL4F3qYbLXUVYzv4cRGhyk4IL/view

**Penderfyniadau**

Nid oes penderfyniadau wedi eu gwneud.

## d) Cyfansoddiad

Yn dilyn newidiadau i ddeddfwriaeth yng Nghymru, mae lle ar gyfer cynrychiolydd Dyneiddwyr Cymru ar Grŵp y pwyllgor.

Mae Addysg Grefyddol wedi cael ei ddisodli neu ei ddefnyddio ochr yn ochr â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## 3) Materion Eraill

## a) Lleol

Cyfarfu aelodau CYSAG dair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Cynhaliwyd pob cyfarfod yn rhithiol.

**Newyddlen**

Cyhoeddodd Conwy a Sir Ddinbych eu hail newyddlen. Mae'n cyflwyno newyddion i ysgolion yn ymwneud ag AG / Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac mae'n hynod bwysig wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r ail rifyn yn cynnwys gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gymhwyster Agored lefel 1 a 2, dolenni cyswllt i ganolfan San Silyn Wrecsam ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gwybodaeth am adnoddau datblygiad proffesiynol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gwybodaeth am E-ddyddlyfr AG ôl 16 o'r enw 'Herio Materion Crefyddol'. Mae'r ALI wedi dosbarthu'r newyddlen i'r holl ysgolion, ac mae'n cael ei rannu ar Rwydwaith Hwb Addysg Grefyddol Gogledd Cymru. Cafodd ei gyflwyno i aelodau CYSAG yn hydref 2023.


AGored


REach

**Rhwydwaith Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Creodd Cyngor Sir Ddinbych rwydwaith ar Microsoft TEAMS yn ystod haf 2022. Mae'r rhwydwaith 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg CSDd' yn rhoi mynediad i athrawon i'r Maes Llafur Cytunedig, y Canllawiau Atodol a deunyddiau defnyddiol eraill. I gael mynediad at y rhwydwaith, defnyddiwch y ddolen a ganlyn:

**https://teams.microsoft.com/l/team/19%3aSJHouQczzZxDrh7YWAFqk1FKtFzQ-A5hN8e8y856Zfg1%40thread.tacv2/conversations?groupId=aac98823-0b35-48fa-ab2a-5e711bb714c6&tenantId=4f3f0e52-b734-4164-9409-1b601d147993**

## b) Cenedlaethol

**i. Estyn:**

**Fframwaith Arolygu Estyn, 2024 ac ymlaen:**

Cynhaliodd Estyn ymgynghoriad yn nhymor yr hydref 2020 ar drefniadau arolygu newydd a oedd i fod i gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar ôl atal arolygiadau yn hydref 2021, ond o ganlyniad i'r pandemig, roedd arolygiadau ysgolion wedi'u gohirio tan y Gwanwyn 2022. Oherwydd capasiti, nid oedd y CYSAG yn gallu cyflwyno ymateb, ond fe wnaeth yr aelodau drafod y ddogfen ymgynghori'n fanwl yn flaenorol. Gellir gweld yr ymatebion i'r Ymgynghoriad a gwybodaeth arall am brosesau arolygu Estyn o 2024 i 2030 yma:

Saesneg – https://www.estyn.gov.wales/inspection/inspecting-future-2024-2030
Cymraeg - https://www.estyn.llyw.cymru/inspection/arolygu-ar-gyfer-y-dyfodol-2024-2030

**ii. Llywodraeth Cymru – Addysg a Sgiliau:**

**Fframwaith Ategol ar gyfer AG**

Hysbyswyd aelodau'r CYSAG am adnoddau Dysgu Proffesiynol sydd ar gael i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd, a grëwyd drwy gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a CCYSAGC. Cyhoeddwyd yr adnoddau yn ystod haf 2023:
Rhestr Chwarae Cymraeg - https://hwb.gov.wales/repository/resource/eef7e399-93bb-4d7c-ab68-145c93f4c6d3
Rhestr Chwarae Saesneg - https://hwb.gov.wales/repository/resource/eef7e399-93bb-4d7c-ab68- 145c93f4c6d3

**iii. CCYSAGC**

Roedd Aelodau'r CYSAG a'r ALl yn cael eu cynrychioli yn nhri cyfarfod CCYSAGC, ac wedi derbyn rhai o'r cyflwyniadau yr oeddent wedi'u gwneud. Parhaodd CYSAG i dderbyn adroddiadau gan gynrychiolwyr a fynychodd gyfarfodydd y Gymdeithas. Mae cofnodion a phapurau o CCYSAGC hefyd wedi cael eu cyflwyno mewn cyfarfodydd CYSAG. Mae cofnodion a chyflwyniadau i'w gweld ar wefan CCYSAGC http://wasacre.org.uk/.

Cynhaliodd Sir Ddinbych gyfarfod haf CCYSAGC (ar-lein). Croesawodd y cyfarwyddwr addysg bawb i'r cyfarfod, a chafwyd cyflwyniad o'r enw 'Cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Newydd' gan Ysgol y Santes Ffraid, Dinbych am sut y maent wedi cynllunio a gweithredu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru.

## c) Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion gan y CYSAG.

## 4. Atodiadau:

### a) Cyfansoddiad y CYSAG

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

Yr Eglwys yng Nghymru
Jennie Downes

Yr Eglwys Gatholig Rufeinig
Collette Owen

Undeb y Bedyddwyr
Disgwylir enwebiad (Cymraeg)
Disgwylir enwebiad (Saesneg)

Presbyteraidd
Parch. Brian H Jones (Cymraeg)
Christine Thomas (Saesneg)

Methodistiaid
Parch. Martin Evans-Jones

Yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig
Disgwylir enwebiad

Undeb yr Annibynwyr Cymreig
Disgwylir enwebiad

Cymdeithas y Cyfeillion Crefyddol
Dominic Oakes

Disgwylir enwebiad

Yn cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon

Pennaeth Uwchradd
Leah Crimes

Pennaeth Adran Iau
Disgwylir enwebiad

Arbenigwyr AG Uwchradd
Sarah Griffiths

Pennaeth Babanod
Disgwylir enwebiad

Athrawon Ysgolion Arbennig
Ali Balentine

Athrawon Dosbarth Iau
Susan Williams

Athrawon Dosbarth Babanod
Disgwylir enwebiad

Cynrychiolwyr Cyngor Sir Ddinbych

Y Cynghorydd Ellie Chard
Y Cynghorydd Cheryl Williams
Y Cynghorydd Ann Davies
Y Cynghorydd Gill German
Y Cynghorydd Merfyn Parry
Y Cynghorydd Huw Williams
Y Cynghorydd Delyth Jones
Y Cynghorydd Emrys Wynne

Aelodau Cyfetholedig:
Tania Ap Siôn - Cyfarwyddwr Canolfan y Santes Fair

## b) Nifer y cyfarfodydd a'u dyddiadau

Cyfarfodydd CYSAG:

- 19 Hydref 2022
- 8 Chwefror 2023
- 15 Mehefin 2023

Cynhaliodd Sir Ddinbych gyfarfod haf CCYSAGC (ar-lein) - 19 Mehefin 2023

## c) Sefydliadau sy'n derbyn yr adroddiad

- AdAS
- Ysgolion Sir Ddinbych
- Mae'r adroddiad ar gael ar wefan CCYSAGC ar gyfer sefydliadau cysylltiedig.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)** | | |
| Dyddiad y Cyfarfod: | | 17 Hydref 2023 |
| Eitem ar y Rhaglen: | **7** | Manylion yr Adroddiad |

<u>*Cefndir yr Adroddiad:*</u>

Mae’r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y cyfleoedd a’r deunydd ategol sydd ar gael i athrawon Addysg Grefyddol, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

<u>*Pwrpas yr Adroddiad:*</u>

Codi ymwybyddiaeth am y cyfleoedd hyn a chaniatáu i aelodau’r CYSAG gynnwys eraill er budd athrawon.

<u>*Argymhellion:*</u>

- Derbyn y cyflwyniad.
- Yr ALl i roi gwybod i Ysgolion Sir Ddinbych am y deunydd a’r cyfleoedd hyn.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<table>
<tr><td colspan="3">Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol<br>(CYSAG)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad y Cyfarfod:</td><td>17 Hydref 2023</td></tr>
<tr><td>Eitem ar y Rhaglen:</td><td>8</td><td>Manylion yr Adroddiad</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Cefndir yr Adroddiad:</u><br><br>Mae CYSAG yn parhau i fod yn aelod o Gymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru ac yn derbyn adroddiadau ar gyfarfodydd y mae aelodau'n mynd iddynt, copïau o'r cofnodion ac unrhyw adroddiad arall o'r Gymdeithas.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Pwrpas yr Adroddiad:</u><br><br>Bod aelodau'n cael eu hysbysu ynghylch ffocws a phrif ganlyniadau'r cyfarfod blaenorol.</td></tr>
<tr><td colspan="3"><u>Argymhellion:</u><br><br>▪ Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar-lein ar 19 Mehefin 2023 (gan Gyngor Sir Ddinbych).<br>▪ Cytuno pwy fydd yn bresennol yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC ar 25 Hydref 2023.</td></tr>
</table>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

***Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru,***
***Rhithwir trwy Zoom***
***19 Mehefin 2023***
***10.00 am - 12.00 pm***

**Presenoldeb**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Owen Davies (OD)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Chris Abbas (CA)<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Alice Parry (AP)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>John Taylor (JT)<br>Marina Chacon-Dawson (MCD)<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Caerdydd / *Caerdydd***<br>John Taylor (JT)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Jennifer Harding Richards (JHR)<br><br>**Ceredigion**<br>Keith Evans (KE)<br>Mary Davies (MD)<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord (PL)<br>Collette Owen (CO)<br>Ellie Chard (CE) | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord (PL)<br>Geraint Davies (GD)<br>Leah Crimes (LC)<br>James Brown (JB)<br>Ruth Thackray (RT)<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Vicky Barlow (VB)<br>Lyn Oakes (LO)<br><br>**Gwynedd**<br>Paul Rowlinson (PR)<br>Eurfryn Davies (ED)<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tudful***<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Louise Brown (LB)<br>Hayley Jones (EAS)<br>Suzanne Gooding (SG)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Castell-nedd a Port Talbot***<br>Nia Jenkins (NJ)<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd / *Casnewydd***<br>Hayley Jones (HJ)<br>Huw Stephens (HS) | **Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br>Jennifer Harding Richards (JHR)<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Mathew Maidment (MM)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Jennifer Harding Richards (JHR)<br><br>**Torfaen**<br>Hayley Jones (HJ)<br><br>**Bro Morgannwg / *Bro Morgannwg***<br>Kathy Riddick (KR)<br>Donna Graves (DG)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Tania ap Siôn (TS)<br>Libby Jones ( LJ **)**<br><br>**NAPfRE**<br>Paula Webber (PW) | ***Sylwedyddion:***<br><br>**MAGC**<br><br>**CBAC**<br>Chris Owens (CO)<br><br>**Estyn**<br>Aranwen Morgans-Thomas (AMT)<br><br>**Llywodraeth Cymru**<br><br>**Yr Eglwys yng Nghymru**<br><br>**Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br>Angela Keller (AK)<br><br>**Cofnodion (o'r recordiad)**<br>Jo Nicholls (JNI) |

DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod**

## 1. Cyflwyniad a chroeso

Croesawodd TaS bawb i gyfarfod yr haf a diolchodd i Awdurdod Lleol Sir Ddinbych a CYSAG/CYS am letya'r cyfarfod. Croesawodd a chyflwynodd TaS Bennaeth Gwasanaeth Addysg Sir Ddinbych, Geraint Davies.

Croesawodd Geraint Davies bawb i'r cyfarfod yn ffurfiol. Dechreuodd Geraint y cyfarfod gyda'r canlynol:

Mae'r cwricwlwm wedi mynd trwy gryn dipyn o newid dros y blynyddoedd diwethaf. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wedi cymryd lle Addysg Grefyddol. Mae'r gyfraith wedi ffurfioli cynnwys argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol ac erbyn hyn mae'n rhaid i'r sector gwirfoddol a gynorthwyir ystyried maes llafur cytunedig lleol hefyd.

Bu'r newidiadau hyn yn her i'n hysgolion, gyda phob her yn dod â chyfleoedd cyffrous i staff fod yn greadigol i ddarparu cwricwlwm gwirioneddol leol. Mae'r cyfleoedd i sicrhau bod CGM yn bwydo i'r pedwar diben yn rhan annatod o'r Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i'n disgyblion fod yn unigolion iach a hyderus a chael gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu i'w siapio i ddod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus ac i barchu hawliau ac anghenion pobl eraill yn ein cymdeithas amrywiol.

Rhoddodd Geraint Davies enghreifftiau o hanes Sir Ddinbych o ran ffydd a chred a myfyriodd ar sut y bydd yn newid yn y dyfodol.

Gwelodd yr 21ain ganrif gynnydd mawr mewn technoleg ac mae hynny wedi effeithio ac yn parhau i effeithio ar ein bywydau.

Mae angen arfogi ein pobl ifanc â'r sgiliau i ymgysylltu'n feirniadol â chredoau a'r buddion o'r gymdeithas y maent yn byw ynddi a chroesawu'r cymunedau cynyddol ryng-ddiwylliannol yr ydym i gyd yn eu gwasanaethu.

Diolchodd TaS i Geraint Davies am ei gyflwyniad ac am letya'r cyfarfod.

## 2. Myfyrdod tawel

Ym mis Mai 2023, cynrychiolodd LJ a TaS CCYSAGauC yng nghynhadledd NASACRE yn Llundain. Roedd NASACRE yn dathlu 30 mlynedd o'r Gymdeithas, yn cefnogi CYSAGau Lloegr.

Er ei bod yn amlwg bod systemau addysg Cymru a Lloegr yn dod yn fwyfwy gwahanol, mae yna hanes cyffredin nodedig sy'n werth ei ddathlu. Hanes sydd a'i ganolbwynt ar y rôl leol sylweddol a roddwyd i GYSAGau a CYSau ar gyfer CGM ac addoli ar y cyd. Hanes lle ffurfiwyd cymdeithas genedlaethol yn ystod y 3 degawd diwethaf ar gyfer gwaith CYSAGau a CYSau gan gydnabod gwerth y lleol ond hefyd y cryfder a'r gefnogaeth a ddaw yn sgil cydweithio ar lefel genedlaethol.

Arweiniodd TaS fyfyrdod tawel, pan ofynnwyd i aelodau oedi am gyfnod byr a dwyn i gof eu hawdurdodau lleol eu hunain yr oeddent yn eu cynrychioli heddiw. Beth sydd ganddyn nhw i'w gynnig i'r cyfarfod hwn a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol heddiw? Beth y gallant fynd ag ef adref gyda nhw i'w rannu?

## 3. Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau gan yr aelod o'r Pwyllgor Gwaith, Edward Evans, Elin Stock a Kate Russell o Cymwysterau Cymru.

## 4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar Zoom ar 21 Mawrth 2023

Newidiadau i'w gwneud:

Tudalen 1 Newid Microsoft TEAMS i Zoom.
Tudalen 2 JHR i'w chynnwys yn cynrychioli Sir Gaerfyrddin.
Tudalen 9 Canolfannau AG Rhanbarthol – newidiadau i'w gwneud, TaS i anfon yr union fanylion at Alice:

- Dileu brawddeg gyntaf yr ail baragraff.
- Camsillafu AREIAC ac AULRE
- Mae angen tynnu RE Today oddi ar restr sefydliadau'r grŵp llywio. (Nid yw RE Today wedi bod ar y grŵp llywio, yn hytrach mae'r 'Canolfannau AG Rhanbarthol' yn cael eu galluogi a'u cefnogi gan RE Today).
- Gellir ychwanegu NATRE at y rhestr yn ogystal â TRS-UK a Culham St Gabriels.

Gyda'r newidiadau uchod, cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023.

Cynigiodd RS dderbyn y cofnodion ac eiliodd HS.

Bydd TaS yn arwyddo'r cofnodion terfynol a bydd AP yn ffeilio'r cofnodion.

## 5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC.

Mae'r enw 'Regional RE Hubs' wedi newid i 'Regional RE Hubs UK'.

Bydd unrhyw faterion eraill sy'n codi yn cael sylw yn yr eitemau ar agenda'r cyfarfod.

## 6. Materion Llywodraeth Cymru:

1) Roedd yr unig gyfarfod ers yr adroddiad diwethaf yn ymwneud â'r adolygiad maes llafur cytunedig anffurfiol a gwblhawyd ddiwedd mis Mawrth. Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cofnodi ei diolch i CCYSAGauC am gynnal yr adolygiad o'r meysydd llafur cytunedig ac maent bellach yn y broses o ymateb iddo.

   Mae gennym ddyddiad wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am hyn ac am faterion penodol megis y newidiadau y mae CCYSAGC wedi gofyn amdanynt i'r adran gyfreithiol ar Hwb.

2) Diweddariad dysgu proffesiynol cenedlaethol – mae CCYSAGauC yn cynhyrchu adnoddau cenedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd CCYSAGauC y swp cyntaf o restrau chwarae dysgu proffesiynol cenedlaethol yn y Digwyddiad Mewnwelediad Polisi ar 25 Ebrill 2023. Mae'r rhain bellach wedi'u cyhoeddi ar Hwb LlC. Daeth nifer dda i'r digwyddiad hwn gyda dros 100 yn bresennol. Argymhellir bod pob aelod yn ymweld â Hwb LlC i weld y rhestrau chwarae.

   Mae gwaith yn parhau ar y swp nesaf o adnoddau CGM a byddant yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn nhymor yr Hydref. Bydd y rhain yn cynnwys CGM a sgiliau trawsgwricwlaidd – llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn ogystal â rhestr chwarae ar gyfer llywodraethwyr ysgol.

   Bydd trydydd swp o adnoddau yn cwmpasu addysgeg o fewn CGM, a CGM o fewn y dyniaethau.

7. **Cyflwyniad PYCAG: Arfer sy'n dod i'r amlwg o safbwynt ysgol 'ffydd' [Leah Crimes – Pennaeth, Ysgol Santes Ffraid, Dinbych]**

Cafodd cyflwyniad PYCAG ei gyflwyno gan Phil Lord, Ymgynghorydd Sir Ddinbych. Leah Crimes (LC) yw Pennaeth Ysgol Santes Ffraid, Dinbych. Ysgol ar gyfer plant 3-18 oed yw Ysgol Santes Ffraid, sydd wedi'i lleoli ar gyrion Dinbych. Mae'n ysgol ffydd gyda chymeriad crefyddol dynodedig. Mae ymddiriedolaeth yr ysgol yn dynodi cymeriad yr ysgol yn Gatholig, ond nid yw'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Addysg Gatholig nac Esgobaeth Wrecsam. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn dilyn cwricwlwm addysg grefyddol y Gwasanaeth Addysg Gatholig yn uniongyrchol.

Bu Ysgol Santes Ffraid yn gweithio gyda CYSAG/CYS Sir Ddinbych a PL ac mae'r ysgol wedi cynllunio CGM mewn perthynas â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar CGM a maes llafur cytunedig Sir Ddinbych a'i chymeriad crefyddol dynodedig ei hun.

Cyflwynodd LC sampl o waith mewn perthynas â'r cwricwlwm CGM. Pwysleisiodd ei fod yn waith sy'n mynd rhagddo ac nad oedd yn awgrymu ei fod yn arfer gorau. Fe'i crëwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig a gan edrych ar hanes Ysgol Santes Ffraid. Maent yn seilio Cwricwlwm i Gymru a chwricwlwm CGM yr ysgol ar eu cynefin gyda hanes yr ysgol a thu hwnt i Sir Ddinbych, ac mae'n cynnwys ystod o safbwyntiau plwraliaethol. Bydd LC yn gweithio gyda PL i fireinio a gwella'r cwricwlwm ar gyfer mis Medi. Mae'n ffordd newydd o addysgu ac wedi cael derbyniad da gan ddysgwyr hyd at flwyddyn 7 sydd wedi mwynhau'r profiad go iawn.

Bydd copi o'r cyflwyniad yn cael ei anfon at aelodau CCYSAGauC. Mae LC hefyd yn hapus i rannu adnoddau.

Diolchodd TaS i LC am y cyflwyniad ysbrydoledig.

LW: Diolchodd i LC am y cyflwyniad. Awgrymodd y byddai newid hinsawdd o waith dyn yn cysylltu'n well â stiwardiaeth yn hytrach na feganiaeth. O ran sancteiddrwydd bywyd, gan fod pleidiol i fywyd (*pro-life*) yn cael ei ystyried yn argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol yn y Llys Ewropeaidd, gellid ei gynnwys yn unol â hynny. Er bod Dyneiddiaeth yn seciwlar ar hyn o bryd, yn y gorffennol bu Dyneiddwyr Cristnogol, ac mae'n werth ystyried hyn yn fanylach.

LC: Diolchodd i LB a chytunodd y byddai newid hinsawdd yn cyd-fynd yn dda â stiwardiaeth a chytunodd i edrych i mewn i pleidiol i fywyd. Diolchodd LC i LW am godi'r ddau bwynt hyn ac eglurodd fod rhai agweddau wedi'u crynhoi yn y cyflwyniad. Pwyntiau da i'n helpu i fireinio ein cwricwlwm.

PW: Diolchodd i LC am y cyflwyniad a'r meddwl dwfn sydd wedi'i roi i ddyluniad y cwricwlwm. Gofynnodd PW, sut, mewn ffordd ymarferol, y gwnaethant ddadbacio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn ystod y broses o gynllunio'r cwricwlwm?

LC: Drwy gynllunio tuag yn ôl ac edrych ar sut y gallai eu plant ddeall y datganiadau hynny a gwneud yn siŵr eu bod yn rhoi'r sgiliau a'r profiadau iddynt allu taro'r datganiadau hynny. Maen nhw'n defnyddio rhaglen o'r enw Taith360 ond yn dal i benderfynu a yw o fudd. Mae'n rhaglen sy'n arddangos holl feysydd y cwricwlwm ac fe'i defnyddir fel arf cynllunio. Mae'n asesu eich cwricwlwm ac yn cynhyrchu allbwn â chodau lliw o gwmpas y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

KE: Gofynnodd am gopi o'r sleidiau.

LC: Yn hapus i rannu'r sleidiau gyda'r aelodau ac yn fodlon siarad ag ysgol KE yng Ngheredigion.

LB: A yw Ysgol y Santes Ffraid yn ysgol wirfoddol a reolir yn hytrach nag yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir?

LC: Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yw Ysgol y Santes Ffraid.

TAS: Dymunwyd y gorau i LC wrth iddynt barhau ar eu taith.

**GWEITHREDU:** LC i anfon copi o'r sleidiau at yr ysgrifennydd i'w dosbarthu i aelodau CCYSAGauC.

Eglurodd TaS fod anhawster gyda'r cyfieithiad Cymraeg a chafodd y cyfarfod ei oedi tra daethpwyd o hyd i ateb.

DRAFT

**8. Cymwysterau Cymru (QW)**

RS: Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 14 Mehefin. I baratoi ar gyfer hyn cynhyrchodd Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC fideo byr a rhannodd ymateb drafft y Pwyllgor Gwaith gyda ChYSAGau/CYS. Anogwyd CYSAGau/CYS i ymateb ac i rannu'r wybodaeth gydag athrawon yn eu hawdurdodau lleol.
Ymatebodd y Pwyllgor Gwaith i'r ymgynghoriad ar ran CCYSAGauC gan ddefnyddio barn a sylwadau a rannwyd yn flaenorol. Prif ffocws yr ymateb oedd:

- Nodi bod angen cymhwyster penodol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg am nifer o resymau, megis y rhai a rennir o fewn y drafft a ddosberthir i'r CYSAGau/CYS.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd ennill cymhwyster o fewn pwnc gorfodol a'i werth i'r dysgwyr.
- Dangoswyd sut y byddai'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'r pedwar diben.
- Pwysleisiwyd y byddai hefyd yn rhoi cyfle am ddilyniant o fewn Crefydd Gwerthoedd a Moeseg hyd at 16 oed.
- Tynnwyd sylw at y broblem bod y TGAU newydd yn dechrau yn 2025 ac y bydd bwlch tan 2027 hyd nes y bydd y cynnig llawn yn dechrau cael ei ddysgu. Beth ellir ei wneud i ymateb i'r bwlch?

Y camau nesaf fydd aros i glywed canlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd yn dibynnu ar nifer yr ymatebion a'u sylwadau a yw Cymwysterau Cymru yn awgrymu cymhwyster. Pe baent yn datblygu cymhwyster bydd yn gymhwyster byr ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn eistedd o fewn y cymwysterau sylfaen. Rydym wedi pwysleisio, os caiff cymhwyster o'r fath ei ddatblygu, bydd angen iddo fod ar gael o safon lefel mynediad hyd at lefel 2 er mwyn sicrhau cyfleoedd i bob dysgwr. Os caiff cymhwyster o'r fath ei ddatblygu rydym yn sicr y bydd Cymwysterau Cymru mewn cysylltiad i dderbyn cymorth a chefnogaeth gan aelodau CCYSAGauC wrth iddynt ddatblygu'r cymhwyster. Byddwn yn eich diweddaru ar unrhyw ddatblygiadau pan fyddwn yn clywed mwy.

Bydd dyluniad terfynol y TGAU newydd yn cael ei gyhoeddi i'w ddatblygu gan CBAC ar 26 Mehefin.

TaS: Gobeithio bod Cymwysterau Cymru wedi cael nifer fawr o ymatebion, ac y bydd hyn yn effeithio ar y canlyniad. Pwysleisiodd TaS bwysigrwydd ymateb i ymgynghoriadau. Mae CCYSAGauC yn rhoi cymorth i GYSAGau ac CYSau wrth ymateb i ymgynghoriadau.

**9. Cynhadledd EFTRE [Awst 2023]**

Ym mis Mawrth cytunodd CCYSAGauC i ariannu un athro yn llawn i fynychu'r gynhadledd ym mis Awst. Cadarnhaodd TaS y derbyniwyd un datganiad o ddiddordeb gan Alice Parry, Ysgrifennydd CCYSAGauC. Roedd TaS yn falch iawn y byddai AP yn gallu bod yn bresennol

a gofynnodd i AP adrodd yn ôl i'r aelodau ar ôl y gynhadledd.

**10. Diweddariadau:**

- **Adroddiad gan y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mai 2023**

  TaS – ymdrinnir â'r rhan fwyaf o bethau ar yr agenda.

  Cytunodd y Pwyllgor Gwaith i gynnal cynhadledd CCYSAGauC yn y flwyddyn ysgol i ddod. Mae cynllunio wedi dechrau a bydd yn cynnwys dysgu proffesiynol cenedlaethol ac astudiaethau achos. Nod CCYSAGauC yw creu digwyddiad cyffrous ac arloesol. Fel sy'n arferol, bydd CCYSAGauC yn gweithio gyda PYCAG o ran cynllunio. Bydd CCYSAGauC yn ariannu'r gynhadledd yn llawn. Nid yn unig y bydd ar ffurf diwrnod cynhadledd llawn ond bydd cyfres o seminarau ar-lein yn arwain at y gynhadledd. Bydd y rhain i gyd ar gael am ddim i GYSAGau/CYSau sy'n aelodau a'u hysgolion / ymarferwyr. Mwy o wybodaeth i'w rhannu yn nhymor yr hydref.

  Cytunwyd i ddyfarnu honorariwm i Ysgrifennydd Cynorthwyol CCYSAGauC i gydnabod y gwaith aruthrol sy'n cael ei wneud yn y rôl hon.

- **Estyn**

  TaS: Yng nghyfarfod y gwanwyn darparodd Estyn bapur briffio defnyddiol ar arweiniad arolygu Estyn ar gyfer ysgolion.

  AMT: Diolchodd i CCYSAGC am wahodd Estyn i'r cyfarfod ac roedd yn falch o glywed bod y papur briffio yn ddefnyddiol. Adroddodd AMT fod Estyn yn y broses o baratoi'r fframwaith arolygu newydd ar gyfer 2024. Mae'r ymgynghoriad ar agor ar wefan Estyn ac anogodd AMT bawb i ymateb. Bydd Estyn yn hapus i roi diweddariad byr yn y cyfarfod nesaf.

  Diolchodd TaS i AMT a derbyniodd gynnig Estyn i roi adborth yn y cyfarfod nesaf. Pwysleisiodd TaS bwysigrwydd ymateb i ymgynghoriadau.

- **CBAC**

  CO: Diolchodd i CCYSAGauC am y gwahoddiad i'r cyfarfod. Mae CBAC reit ynghanol arholiadau llawn tan ddiwedd mis Gorffennaf ac ni all siarad am gyfres bresennol arholiadau haf 2023.

  Cadarnhaodd CO fod gostyngiad wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr ar draws TGAU, UG a Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol.

  Dim ond Astudiaethau Crefyddol TGAU yw cyfrifoldeb CO, a bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 24 Awst, 2023.

  Yn dilyn eitem Cymwysterau Cymru ar AG , mae CBAC yn aros am y deunyddiau diweddar gan CC o 26 Mehefin, 2023.

  Mae'n werth nodi bod CBAC yn y broses o benodi ymgynghorydd pwnc ar gyfer Astudiaethau Crefyddol a hefyd yn edrych am gefnogaeth i helpu gyda'r gwaith o ysgrifennu deunyddiau. Mae'r hysbyseb yn cael ei harddangos ar wefan CBAC. Maent yn chwilio am awduron pwnc ar gyfer y fanyleb newydd. Y cylch gwaith yw helpu i gynhyrchu cynnwys y fanyleb yn unol ag amlinelliad y cymhwyster i gynhyrchu tasgau asesu, cynlluniau marcio ac ati. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 7 Gorff. 2023.

Yn Nhymor yr Hydref, bydd y Dysgu Proffesiynol (DPP gynt) yn cynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb a drefnwyd ar gyfer Caerdydd a Llandudno a bydd amserlen digwyddiadau PL Cardarg (1.25.53 munud) yn cael ei chynnal yng Ngogledd Cymru.

Diolchodd TaS i CO am y diweddariad defnyddiol.

- **Cyngor Addysg Grefyddol - REC**
  KR : Roedd hi'n hanner canmlwyddiant y Cyngor ddechrau mis Mai. Cynhaliwyd digwyddiad mawr yn Neuadd Conway yn Llundain, cartref The Ethical Union. Cafwyd cyflwyniad gan Gomisiynydd Plant Lloegr a oedd yn athrawes AG ei hun.

  Yn y cyfarfod rhoddodd KR gyflwyniad ar y cynnydd yng Nghymru gyda'r cwricwlwm newydd gan gydnabod yr hoffai'r rhan fwyaf o'r gymuned AG yn Lloegr fod yn symud i'r un cyfeiriad â Chymru a chael cefnogaeth gref gan y Llywodraeth yn cydnabod pwysigrwydd CYSAGau ac CYS.

  Ar ddiwedd mis Ebrill, cafodd y Cyngor gyfarfod gyda chynrychiolwyr o Sefydliadau Cymreig sy'n rhan o'r REC: hynny yw, CCYSAGauC, MAGC a'r Eglwys yng Nghymru. Roeddem yn gallu rhoi ein persbectif iddynt ynghylch a ydym yn credu bod y REC yn lle i Gymru gael ei chynrychioli gan fod cwricwlwm y ddwy wlad yn amrywio cymaint. Nodwyd ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn cydnabod Cymru ym mhopeth a wna ac nad yw'n dod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar Loegr.

  Bydd y REC nawr yn gweithio ar sut y gall Cymru gael ei chynrychioli'n llawnach yn y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud.

  Diolchodd TaS i KR am y diweddariad.

- **EFTRE**
  Mae PL yn annog pawb i edrych ar y wefan; mae adroddiadau diddorol ar gael o'r gwledydd. Mae'r un ar gyfer Cymru wedi'i gwblhau ac yn aros i'w lwytho i fyny i'r wefan. Mae fideos hyfforddi hefyd ar gael ar wefan EFTRE.
  TaS: Diolchodd i PL am gynrychioli CCYSAGauC ar fwrdd EFTRE.

- **MAGC**
  Dim cynrychiolydd yn bresennol.

- **PYCAG**
  Cyfarfu PYCAG yr wythnos diwethaf. Hwn oedd cyfarfod cyntaf PW yn ôl ac mae PL wedi bod yn mynd ar ei rhan.

  Mae PYCAG hefyd wedi ymateb i ymgynghoriad Cymwysterau Cymru yn unol ag ymateb CCYSAGauC.
  Mae PYCAG yn falch iawn ac yn gyffrous bod CCYSAGauC yn bwrw ymlaen â'r gynhadledd ac yn edrych ymlaen at gymryd rhan lawn yn y broses gynllunio.

  Ailsefydlwyd y gweithgorau yr wythnos diwethaf i edrych ar y materion mwyaf taer. Yn ogystal â'r cyfarfodydd tymhorol, mae PYCAG yn mynd i dreialu cyfarfod unwaith y mis gyda sesiynau min nos ychwanegol i weithio ar brosiectau. Os oes unrhyw beth yr hoffai aelodau CCYSAGauC i PYCAG edrych arno, yna cysylltwch â PW.

  Mae pedwar mater wedi'u nodi i CCYSAGauC eu hystyried:
  1) Cyfarfu'r grŵp yr wythnos diwethaf i drafod Adroddiadau Blynyddol CYSAG/CYS. Hoffai PYCAG i CCYSAGauC ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ddiweddariad ar statws fersiynau cyfredol 1996 a 2006 o ddogfen ganllawiau yr

Tudalen 47

adroddiad blynyddol a gynhyrchwyd gan ACCAC. Mae PYCAG yn ystyried bod y ddogfen hon wedi dyddio o ran cynnwys iaith, arfer cyfredol, cwricwlwm ac ati.

Cytunodd aelodau WASCRE â'r cais hwn.

2) Mae CCYSAGauC yn cynnal cyfarfod â LlC bob tymor, gyda chynrychiolydd PYCAG. Gofynnodd PW a oedd cyfarfod wedi'i drefnu cyn diwedd y tymor i drafod yr adroddiadau blynyddol.

   Atebodd TaS fod gan CCYSAGauC gyfarfod wedi'i drefnu gydag agenda benodol ond y bydd yn cysylltu â PW i weld beth y gellir ei gynnwys o fewn amserlen y cyfarfod hwnnw.

3) Yn ddiweddar bu PYCAG yn trafod natur CGM yn y cwricwlwm newydd a sut y'i datblygwyd yn y broses ysgrifennu a sut y cafodd ei ysgrifennu i fod yn ddisgyblaeth pwnc trylwyr sydd â chydraddoldeb â disgyblaethau eraill y dyniaethau. Arweiniodd hyn at PYCAG i ystyried ymgymryd â darn o waith a fyddai'n mynd i'r afael â'r mythau a'r camddealltwriaeth sydd wedi codi, neu a allai godi, ynghylch CGM. Roedd PW yn meddwl tybed a fyddai gan CCYSAGauC ddiddordeb yn y ddogfen hon 'mythau a chamddealltwriaeth' efallai fel Cwestiynau Cyffredin i'w harddangos ar y wefan?

   Dywedodd TaS y byddai gan CCYSAGauC ddiddordeb mewn gweld y ddogfen ar ôl iddi gael ei datblygu. Cytunodd aelodau CCYSAGauC.

4) Yn ystod y cyfarfod diweddar, lluniodd DG mewn cysylltiad â HJ restr chwarae ar gyfer aelodau CYSAG/SAC er mwyn eu helpu i ddarparu DP ar eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gofynnodd DG i PYCAG sicrhau ansawdd y rhestr chwarae. Roedd PW yn meddwl tybed a fyddai o ddiddordeb i Gymdeithas CYSAGau Cymru gynnwys hon ar y wefan neu ei rhannu â ChYSAGau/CYSau eraill er mwyn iddynt allu cyrchu'r rhestr chwarae.

TaS: Mae hwn yn swnio fel adnodd i'w groesawu'n fawr. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd edrych i weld a all ymuno â maes perthnasol ar Hwb Llywodraeth Cymru.

LB: Yn cofio'r cwestiwn am arweiniad y Cyngor Eglwysi Rhyddion a'r drafodaeth ynghylch a allai CCYSAGauC roi hwn ar ei wefan hefyd. Bydd yn ddefnyddiol edrych ar y rhestr chwarae yn gyntaf.
Cydnabyddir bod proses gyfan o sicrhau ansawdd ar gyfer Hwb a byddai CCYSAGauC yn chwarae rhan yn hyn o ystyried pwnc y rhestr chwarae.

Bu PYCAG hefyd yn trafod y ddogfen 'Felly rydych chi'n ystyried ymuno â'ch CYSAG lleol' cafodd hon ei diweddaru gan RS a PW ychydig yn ôl, ond mae angen ei hailysgrifennu oherwydd bod deddfwriaeth wedi newid. Ai dyma'r amser iawn i ddiweddaru'r ddogfen hon.

TaS: Yn cytuno mai dyma'r amser iawn ac yn awgrymu bwrw ymlaen.

**GWEITHREDU** : Aelodau CCYSAGauC i gysylltu â PW gydag unrhyw beth yr hoffent i PYCAG weithio arno.

- **Rhwydwaith Rhyng-ffydd**
  Adroddodd LJ fod yr wythnos Rhyng-ffydd yn cael ei chynnal rhwng 12 a 19 Tachwedd 2023. Mae'r Rhwydwaith yn awyddus i gael ysgolion a sefydliadau i baratoi'n gynnar ac i ddechrau meddwl sut i ddefnyddio'r wythnos hon fel llwyfan i amlygu a dyfnhau dimensiynau crefydd a chred rhyng-ffydd eu gwaith. Ceir llawer o syniadau am weithgareddau ar y wefan Rhyng-ffydd .

  Ni fydd Cymunedau Tai yr Adran Ffyniant Bro yn ariannu'r Rhwydwaith rhyng-ffydd bellach ac nid yw wedi bod yn gwneud ers mis Ebrill 2023. Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr a staff y

Rhywdwaith yn gweithio i fynd i'r afael â'r sefyllfa heriol hon ac mae'r Bwrdd wedi cyfarfod yn wythnosol i adolygu'r sefyllfa ariannol yn ofalus, gan gymryd camau priodol fel y gall gwaith hanfodol y Rhwydwaith barhau. Maen nhw wedi gofyn i gyrff sy'n aelodau ysgrifennu at weinidogion a ffigyrau cyhoeddus eraill i ddangos cefnogaeth i'r Rhwydwaith Rhyng-ffydd.

TaS: Bydd y cais hwn yn cael ei ddwyn yn ôl i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC i ystyried ysgrifennu llythyr ac at bwy.

CA: Awgrymir cysylltu â Chyngor Rhyng-ffydd Cymru i gael newyddion mwy lleol am yr wythnos Ryng-ffydd.

**11. Gohebiaeth**

- E-bost oddi wrth CA gyda thaflen am brosiect peilot fideo byr i bobl ifanc.
  CA : Mae hon yn fenter gan Gyngor Rhyng-ffydd Cymru sy'n gofyn i bobl ifanc greu ffilmiau byr o gwmpas gwasanaeth i'r gymuned, mewn unrhyw ffordd y dymunant. Gobeithir dangos y rhain rywbryd i ddathlu pen-blwydd y mudiad yn 20+ eleni.

  TaS : Diolchodd i CA am rannu'r fenter hon ac awgrymodd efallai y byddai ymgynghorwyr am fynd â hyn i'w CYSAGau a'u CYSau lleol a nodi ysgolion a allai fod eisiau cymryd rhan.

- E-bost gan PYCAG ynghylch y 4 pwynt a godwyd yn eitem 6.

**12. Unrhyw fater arall (i’w gytuno cyn y cyfarfod gyda’r Cadeirydd)**

HS: Ar ran y Pwyllgor, diolchodd HS i TaS fel Cadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Gwaith am eu cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd ac am adrodd ar ran CCYSAGauC. Mae hyn i gyd yn golygu cryn amser ac mae'n bwysig iawn bod yr arbenigedd hwn yn cael ei roi ar eu rhan.

TaS: Diolchodd i HS am ei gefnogaeth a'i gydnabyddiaeth.

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Tymor yr Hydref,**

Bydd hwn yn gyfarfod Zoom ddydd Mercher 25 Hydref 2023 dan ofal RhCT.

Diolchodd TaS i awdurdod lleol Sir Ddinbych am letya’r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 11.50pm.

DRAFT

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag